

Arolygiad o Bractis Orthodontig (Ile rhoddwyd rhybudd)

**Cathedral Orthodontics,
Bwrdd Iechyd Prifysgol
Caerdydd a'r Fro**

Dyddiad Arolygu: 5 Rhagfyr 2017

Dyddiad Cyhoeddi: 6 Mawrth 2017

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd rhywfaint o oedi wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth. Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copiâu o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu drwy

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@wales.gsi.gov.uk
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.hiw.org.uk

Cynnwys

1.	Cyflwyniad.....	2
2.	Cyd-destun.....	3
3.	Crynodeb	4
4.	Canfyddiadau	5
	Ansawdd Profiad y Claf	5
	Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol	8
	Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth	14
5.	Y Camau Nesaf.....	16
6.	Methodoleg	17
	Atodiad A.....	19

1. Cyflwyniad

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol yr holl ofal iechyd yng Nghymru.

Prif nod AGIC yw:

- Cyfrannu at y gwaith o wella diogelwch ac ansawdd gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru
- Gwellu profiad dinasyddion o ofal iechyd yng Nghymru, boed hynny fel claf, defnyddiwr gwasanaeth, gofalwr, perthynas neu gyflogai
- Atgyfnerthu llais cleifion a'r cyhoedd o ran y modd y caiff gwasanaethau iechyd eu hadolygu
- Sicrhau bod gwybodaeth amserol, ddefnyddiol, hygyrch a pherthnasol am ddiogelwch ac ansawdd gofal iechyd yng Nghymru ar gael i bawb.

Cwblhaodd AGIC arolygiad o Cathedral Orthodontics yn 80 Heol y Gadeirlan, Caerdydd, CF11 9LN, ar 5 Rhagfyr 2016.

Archwiliodd AGIC sut yr oedd Cathedral Orthodontics yn cyrraedd y safonau gofal a nodir yn y Safonau Iechyd a Gofal (Ebrill 2015) a deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol eraill.

Caiff arolygiadau deintyddol eu cynnal â rhybudd ac rydym yn ystyried ac yn adolygu'r meysydd canlynol:

- Ansawdd Profiad y Claf – Rydym yn siarad â chleifion (oedolion a phlant), eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr er mwyn sicrhau bod safbwynt y claf yn ganolog i'n dull o arolygu.
- Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol – Rydym yn ystyried i ba raddau y mae gwasanaethau'n darparu gofal o ansawdd uchel, diogel a dibynadwy, sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.
- Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth – Rydym yn ystyried sut y mae gwasanaethau'n cael eu rheoli a'u harwain, ac a yw'r diwylliant yn addas i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Rydym hefyd yn ystyried sut y mae byrddau iechyd yn adolygu a monitro eu perfformiad eu hunain yn erbyn safonau a chanllawiau perthnasol.

Mae rhagor o fanylion am ein methodoleg ar gael yn Adran 6 o'r adroddiad hwn.

2. Cyd-destun

Mae Cathedral Orthodontics yn darparu gwasanaethau orthodontig arbenigol i gleifion yn ardal Caerdydd, de Cymru. Mae'r practis yn rhan o'r gwasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro.

Mae Cathedral Orthodontics yn bractis cymysg sy'n darparu gwasanaethau orthodontig preifat, yn ogystal â gwasanaethau orthodontig y GIG.

Mae tîm staff y practis yn cynnwys saith orthodeintydd, rheolwr practis, un therapydd dan hyfforddiant, 13 nyrs ddeintyddol a saith aelod o staff cymorth.

Darperir amrywiaeth o wasanaethau orthodontig preifat, yn ogystal â gwasanaethau orthodontig y GIG.

3. Crynodeb

Yn gyffredinol, gwelsom dystiolaeth bod Cathedral Orthodontics yn darparu gofal diogel ac effeithiol.

Gwelsom fod y practis yn gwneud y canlynol yn dda:

- Dywedodd cleifion wrthym eu bod yn hapus â'r gwasanaeth a oedd yn cael ei ddarparu
- Roedd y cyfleusterau clinigol yn lân, yn daclus ac yn helaeth eu cyfarpar
- Roedd yr offer deintyddol yn cael eu glanhau a'u sterileiddio'n briodol
- Roedd dogfennau a gwybodaeth ar gael a oedd yn dangos bod y cyfarpar pelydr-X yn cael ei ddefnyddio'n ddiogel
- Dywedodd staff wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan uwch-aelodau o staff y practis.

Dyma'r meysydd yr argymhellwn y gallai'r practis eu gwella:

- Roedd angen i wiriadau mwy rheolaidd gael eu cwblhau ar y cyfarpar a'r cyffuriau brys, er mwyn sicrhau eu bod ar gael ac yn ddiogel i'w defnyddio petai argyfwng gyda chlaf (llewygu)
- Roedd angen i'r broses o gofnodi gwiriadau ar gyfarpar sterileiddio fod yn fwy manwl
- Roedd angen i orthodeintyddion wella agweddau ar eu prosesau cadw cofnodion
- Roedd adolygiad o rai polisïau a gweithdrefnau yn ofynnol.

4. Canfyddiadau

Ansawdd Profiad y Claf

Gwelsom fod cleifion a oedd yn ymweld â'r practis yn cael eu trin ag urddas, parch a charedigrwydd gan dîm y practis. Dywedodd y cleifion a roddodd sylwadau eu bod yn fodlon iawn ar y gwasanaeth yr oeddent wedi ei gael.

Cyn yr arolygiad, roeddem wedi estyn gwahoddiad i'r practis ddosbarthu holiaduron AGIC i gleifion, er mwyn cael eu barn ar y gwasanaethau orthodontig a oedd yn cael eu darparu. Cafodd cyfanswm o 20 eu llenwi a'u dychwelyd atom. Roedd sylwadau'r cleifion yn cynnwys:

“Yn hapus iawn â thriniaeth fy merch. Staff cyfeillgar a phroffesiynol”

“Ar y cyfan, yn fodlon iawn ar lefel gwasanaeth y practis”

“Tîm cyfeillgar a chymwynasgar iawn, ac mae'r driniaeth yn rhagori ar ddisgwyliadau'r ddau ohonom”

Gofal urddasol

Gwelsom fod y rhyngweithio rhwng staff a chleifion yn gyfeillgar, yn barchus ac yn broffesiynol.

Dangosodd yr holiaduron cleifion a lenwyd fod yr holl gleifion yn fodlon ar y gofal yr oeddent wedi ei gael. Dywedodd cleifion wrthym eu bod wedi cael croeso gan y practis. Roedd rhai cleifion wedi ychwanegu eu sylwadau cadarnhaol eu hunain am lefel y gwasanaeth yr oeddent wedi ei chael, ynghyd ag agwedd ac ymdriniaeth tîm cyfan y practis.

Roedd y practis yn darparu triniaethau orthodontig preifat, yn ogystal â thriniaethau orthodontig y GIG. Roedd gwybodaeth am brisiau triniaethau orthodontig, yn ogystal â chostau'r GIG, wedi'i harddangos yn ardaloedd aros y practis. Roedd hyn yn golygu bod cleifion yn gallu gweld gwybodaeth am faint y gallai eu triniaeth ei gostio. Roedd cyfleuster credyd ar gael i gleifion, yn amodol ar feini prawf penodol, a oedd yn eu galluogi i dalu am driniaeth dros gyfnod hwy o amser. Roedd gan y practis drwydded credyd defnyddwyr a oedd yn ei alluogi i ddarparu'r cyfleuster hwn.

Roedd taflen wybodaeth, a oedd yn darparu gwybodaeth gyffredinol am y practis, yn cael ei rhoi i gleifion yn ystod eu hapwyntiad cyntaf, er mwyn iddynt ei darllen a'i chadw.

Gofal amserol

Gwelsom fod y practis yn gwneud ymdrechion i sicrhau bod cleifion yn cael eu gweld mewn modd amserol. Dywedodd mwyafrif y cleifion a lenwodd yr holiaduron nad oeddent wedi gorfod aros cyn gweld yr orthodeintydd ar ddiwrnod eu hapwyntiad. Dywedodd y rheiny a oedd wedi gorfod aros nad oedd hynny wedi bod am amser hir a bod y practis wedi egluro'r rheswm dros yr oedi. Dywedodd staff wrthym hefyd y byddai staff y dderbynfa yn rhoi gwybod i gleifion am unrhyw oedi o ran eu hapwyntiadau.

Roedd rhif ffôn y tu allan i oriau ar gael i gleifion petai arnynt angen triniaeth frys. Roedd y rhif ffôn ar gael drwy amrywiaeth o ffyrdd, gan gynnwys wedi'i arddangos ger drws y ffrynt, ar neges y peiriant ateb, yn nhaflen wybodaeth y practis, ac ar wefan y practis.

Cadw'n iach

Gwelsom fod gwybodaeth hybu iechyd ar gael i gleifion er mwyn helpu i hyrwyddo'r angen iddynt ofalu am eu hiechyd a'u hylendid y geg eu hunain. Roedd fideo'n cael ei ddangos i'r holl gleifion a oedd yn cael triniaethau orthodontig, a oedd yn dangos iddynt sut i gynnal eu hiechyd y geg tra'u bod yn cael triniaethau orthodontig.

Dywedodd yr holl gleifion a ddychwelodd holiaduron wedi'u llenwi wrthym eu bod wedi cael digon o wybodaeth am eu triniaeth ddeintyddol, a hynny'n ddieithriad.

Gofal unigol

Mae'r practis wedi'i leoli mewn tŷ wedi'i addasu, ac mae'r ystafelloedd triniaeth wedi'u lleoli dros ddau lawr. Roedd un ystafell driniaeth ar y llawr daear, a thair ystafell driniaeth bellach ar y llawr cyntaf, yr oedd yn rhaid dringo grisiau i'w cyrraedd. Roedd un gris yn arwain i mewn i'r practis, ac un gris arall i lawr i'r ystafell driniaeth ar y llawr daear. Roedd ramp ar gael er mwyn i gleifion a oedd yn defnyddio cadeiriau olwyn gael mynedfa i'r practis. Dywedwyd wrthym y byddai cleifion ag anawsterau symudedd yn cael cynnig apwyntiad gyda'u horthodeintyddion eu hunain yn yr ystafell driniaeth ar y llawr daear.

Roedd y practis yn darparu gwybodaeth fanwl i gleifion, a oedd yn nodi'r hyn y gellid ei ddisgwyl o driniaethau orthodontig. Roedd ffurflenni cydsynio i driniaeth ar gael yn Gymraeg a Saesneg, ac roedd ffurflenni 'gwirio gwên' yn cael eu cynhyrchu'n arbennig ar gyfer cleifion iau, er mwyn eu helpu i ddeall y triniaethau a oedd yn cael eu darparu, ynghyd â'u canlyniadau.

Roedd y practis yn darparu gwybodaeth i gleifion ynglŷn â sut y gallent fynegi pryder (cwyn). Gallai cleifion hefyd roi adborth drwy gyfrwng blwch awgrymiadau, yn ogystal â thrwy arolygon cleifion rheolaidd.

Gwelsom fod gan y practis weithdrefn gwyno ysgrifenedig. Roedd gwybodaeth ar gyfer cleifion y GIG a chleifion preifat ynglŷn â sut i fynegi pryder (cwyn) wedi'i harddangos yn ardaloedd y derbynfydd. Nodwyd gennym fod angen i'r broses gwyno gael ei diffinio'n well ar gyfer cleifion preifat, er mwyn helpu i sicrhau eu bod yn ymwybodol o broses wahanol. Roedd y polisi hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i ddiweddiadau gynnwys manylion cyswllt AGIC. Mae gan y practis Reolwr Cwynion, ac roedd yr holl gŵynion, y rhai llafar ac ysgrifenedig, yn cael eu cofnodi, ynghyd â manylion y camau gweithredu a oedd wedi cael eu cymryd mewn perthynas â phob cwyn. Roedd hyn yn galluogi'r practis i adolygu pryderon, cymryd camau i ddatrys unrhyw broblemau, a rhoi adborth i gleifion. Roedd hyn yn golygu bod y practis yn dysgu o bryderon, er mwyn gwella arferion a phrofiad cleifion.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i weithdrefn gwyno'r practis gynnwys gwybodaeth ar gyfer cleifion preifat ynglŷn â sut i gyflwyno cwyn i'r practis.

Rhaid i'r weithdrefn gwyno ar gyfer cleifion preifat gynnwys y manylion cyswllt cywir ar gyfer Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru.

Gwelsom fod cleifion yn gallu rhoi adborth ar y gwasanaethau a oedd yn cael eu darparu, a hynny drwy gyfrwng blwch awgrymiadau yn ardal derbynfa'r practis. Gwelsom hefyd fod barn cleifion yn cael ei cheisio drwy ddefnyddio holiaduron cleifion ar feysydd gwahanol o'r practis. Gwelsom ganlyniadau un holiadur ynghylch boddhad cleifion ag oriau agor y practis, gan olygu bod y practis yn ystyried barn cleifion.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Gwelsom fod y practis yn darparu gofal diogel ac effeithiol i gleifion. Roedd yn amlwg bod adeilad y practis yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda, a hynny y tu mewn a'r tu allan iddo.

Arddangoswyd proses drylwyr ar gyfer glanhau a sterileiddio offer deintyddol. Gwelsom fod angen gwella'r broses o gofnodi gwiriadau ar y cyfarpar sterileiddio.

Er bod gwiriadau ar gyfarpar a chyffuriau brys yn cael eu cwblhau, gwelsom fod angen iddynt gael eu gwneud yn fwy aml.

Roedd dogfennau a gwybodaeth ar gael i ddangos bod cyfarpar pelydr-X a dadheintio yn cael ei ddefnyddio'n ddiogel.

Gofal diogel

Yn gyffredinol, gwelsom fod trefniadau ar waith i sicrhau diogelwch a lles y staff sy'n gweithio yn y practis, yn ogystal â'r bobl sy'n ymweld ag ef.

Roedd yr adeilad yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda, yn ôl pob golwg, a hynny y tu mewn a'r tu allan iddo. Yn ystod taith o amgylch yr adeilad, gwelsom fod yr holl ardaloedd yn lân, yn daclus, ac yn rhydd o unrhyw beryglon amlwg. Gwelsom fod cyfarpar diogelwch tân ar gael mewn lleoliadau gwahanol o amgylch y practis. Gwelsom dystiolaeth bod gan y practis gontract ar waith ar gyfer gwasanaethu'r cyfarpar yn flynyddol, er mwyn sicrhau ei fod yn gweithio'n iawn.

Roedd Profion Dyfeisiau Cludadwy (PAT) wedi cael eu cwblhau ar yr holl gyfarpar trydanol yn y practis yn ystod y 12 mis diwethaf, er mwyn helpu i sicrhau ei fod yn ddiogel i'w ddefnyddio.

Roedd contract ar waith ar gyfer trosglwyddo gwastraff peryglus (clinigol) y practis. Gwelsom fod gwastraff peryglus yn cael ei storio'n ddiogel nes iddo gael ei gasglu gan y cwmni dan gontract. Roedd gwastraff nad oedd yn beryglus (gwastraff cartref) yn cael ei gasglu drwy drefniadau â'r cyngor sir lleol.

Cawsom olwg ar yr holl gyfleusterau clinigol (ystafelloedd triniaeth) yn y practis. Roedd y rhain yn lân ac yn daclus. Roedd y lloriau a'r arwynebau yn yr ystafelloedd triniaeth yn hawdd eu glanhau, er mwyn atal croes-heintio. Roedd yr holl ystafelloedd triniaeth yn cynnwys cyfansoddion dyfeisiau ac offer i

gynorthwyo'r clinigwyr i ddarparu triniaeth, gan gynnwys yr amrywiaeth lawn o therapïau dyfeisiau orthodontig, a hynny o unrhyw leoliad.

Roedd dwy ystafell ddadheintio yn y practis a oedd, yn gyffredinol, yn bodloni'r egwyddorion sydd wedi'u nodi yn y ddogfen polisi a chanllaw Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM) 01-05 (Diwygiad 1).¹ Gwelsom fod angen selio'r llawr yn un o'r ystafelloedd dadheintio, er mwyn sicrhau bod modd ei lanhau'n effeithiol i atal croes-heintio.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i berchennog y practis sicrhau bod y llawr yn cael ei selio rhwng y cabinetau a'r llawr presennol (neu wneud trefniadau addas eraill) yn un o'r ystafelloedd dadheintio, er mwyn atal dŵr, llwch a malurion rhag cronni yn y rhan heb ei selio o'r llawr.

Roedd un o'r ystafelloedd dadheintio hefyd yn cael ei defnyddio ar gyfer rhai gweithgareddau gweinyddol, ac roedd yn cynnwys cyfrifiaduron. Gwelsom fod y cadeiriau yn hen ac wedi treulio, ac nad oedd modd eu glanhau'n hawdd. Argymhellwyd gennym y dylai'r practis ystyried adleoli'r rhain i ran arall o'r practis, i ffwrdd oddi wrth yr ardal ddadheintio.

Arddangoswyd proses ddadheintio drylwyr gan y staff, a gwelsom dystysgrifau a oedd yn dangos bod staff wedi cwblhau hyfforddiant ar ddadheintio. Roedd yr offer yn cael eu glanhau â llaw cyn cael eu prosesu mewn peiriant golchi a diheintio.² Roedd dau beiriant golchi a diheintio yn y practis, a gwelsom fod cofnodlyfrau wedi cael eu cadw o'r gwiriadau dyddiol ar y peiriannau, er mwyn dangos eu bod yn parhau'n ddiogel i'w defnyddio.

Roedd tri pheiriant awtoclaf³ yn cael eu defnyddio yn y practis, ac roeddent wedi'u lleoli yn y ddwy ystafell ddadheintio. Gwelsom dystiolaeth bod y tri pheiriant wedi cael eu harchwilio, a'u bod yn ddiogel i'w defnyddio. Dywedodd staff wrthym am y profion a'r gwiriadau dyddiol a oedd yn cael eu cwblhau ar y

¹ Mae dogfen [Memorandwm Technegol Iechyd Cymru \(WHTM\) 01-05 \(Diwygiad 1\)](#) yn darparu canllawiau i weithwyr proffesiynol ar ddadheintio mewn practisau gofal sylfaenol a phractisau deintyddol cymunedol.

² Proses lanhau wedi'i hawtomeiddio, sy'n glanhau ac yn diheintio cyfarpar.

³ Siambwr wasgedd yw peiriant awtoclaf, a ddefnyddir i sterileiddio cyfarpar a chyflenwadau drwy ddefnyddio stêm dirlawn gwasgedd uchel.

peiriannau awtoclaf, er mwyn dangos eu bod yn parhau'n ddiogel i'w defnyddio, fel yr argymhellir gan WHTM 01-05. Gwelsom fod rhai o'r profion a'r gwiriadau wedi cael eu cofnodi, ond nid y cyfan ohonynt. Rhoesom wybod i berchennog a rheolwr y practis am ein canfyddiadau, a rhoesant sicrwydd ar lafar y byddai camau unioni yn cael eu cymryd. Ar ddiwrnod yr arolygiad, darparodd rheolwr y practis gopi o'r archeb a oedd wedi cael ei gwneud ar gyfer y cofnodlyfrau perthnasol, a chytunodd i wneud newidiadau i'r broses o brofi'r peiriannau awtoclaf, a hynny'n weithredol o sesiwn y prynhawn.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r practis wneud trefniadau addas i sicrhau bod staff yn cydymffurfio â'r canllawiau sydd wedi'u nodi yn nogfen ganllaw WHTM 01-05 (Diwygiad 1) mewn perthynas â:

- ***chwblhau profion a gwiriadau ar y peiriannau awtoclaf***
- ***cynnal cofnodlyfrau o'r profion a'r gwiriadau ar y peiriannau awtoclaf***

Roedd offer yn cael eu storio mewn bagiau wedi'u selio er mwyn atal croesheintio. Roedd y dyddiadau y mae'n rhaid i offer gael eu defnyddio neu eu hailbrosesu (eu glanhau a'u sterileiddio) erbyn wedi cael eu cofnodi ar y deunydd pacio, a hynny'n unol ag WHTM 01-05.

Roedd y practis wedi cwblhau archwiliad rheoli heintiau yn ddiweddar, er mwyn nodi meysydd i'w gwella a'u datblygu yn rhan o'r gweithgarwch monitro sicrwydd ansawdd cyffredinol. Argymhellwyd gennym y gallai'r practis fod am ystyried defnyddio fersiwn wahanol o archwiliad rheoli heintiau, er mwyn sicrhau bod unrhyw feysydd i'w gwella yn cydymffurfio'n llawn ag WHTM 01-05.

Gwelsom fod cyfarpar a chyffuriau ar gael i'w defnyddio petai argyfwng gyda chlaf (llewygu). Gwelsom hefyd gofnodion a oedd yn dangos bod y cyffuriau a'r cyfarpar yn cael eu gwirio'n fisol. Argymhellwyd gennym wrth berchennog y practis y dylai gwiriadau wythnosol gael eu cwblhau ar y cyffuriau a'r cyfarpar brys, yn unol â chanllawiau'r Cyngor Dadebru (DU).⁴ Cadarnhaodd perchennog y practis y byddai hyn yn cael ei weithredu ar unwaith. Gwelsom fod rhai o'r cyfarpar brys, yn arbennig llwybrau anadlu, yn hen. Rhoesom wybod i reolwr y

⁴ Mae'r [Cyngor Dadebru \(DU\)](#) yn bodoli i hyrwyddo canllawiau dadebru gwyddonol o ansawdd uchel, sy'n berthnasol i bawb, a chyfrannu at achub bywyd drwy addysg, hyfforddiant, ymchwil a chydweithredu.

practis am ein canfyddiadau, a roddodd sicrwydd ar lafar y byddai camau unioni'n cael eu cymryd. Ar ddiwrnod ein harolygiad, cawsom gadarnhad bod y cyfarpar wedi cael ei archebu, a bod disgwyl iddo gael ei ddsbarthu'r diwrnod canlynol.

Rhaid i'r practis wneud trefniadau addas i sicrhau bod:

- ***blwch cyffuriau brys cyflawn ar gael yn y practis, a bod***
- ***gwiriadau rheolaidd yn cael eu cwblhau ar y cyfarpar brys***

yn unol â'r safonau ansawdd sydd wedi'u pennu gan y Cyngor Dadebru (DU).

Gwelsom fod y cofnodion hyfforddiant yn dangos bod staff wedi cwblhau'r hyfforddiant cyfredol ar ddadebru cardio-pwlmonaidd (CPR).

Daethom i'r casgliad bod gan y practis drefniadau ar waith i sicrhau bod y cyfarpar radiograffeg (pelydr-X) yn cael ei ddefnyddio'n ddiogel, a hynny am fod y wybodaeth a'r dogfennau gofynnol ynglŷn â'r defnydd diogel o gyfarpar pelydr-X ar gael ac yn gyfredol. Gwelsom dystysgrifau hyfforddiant a oedd yn dangos bod y staff clinigol perthnasol wedi cwblhau hyfforddiant cyfredol ar ymbelydredd ïoneiddio a'u bod yn bodloni canllawiau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol. Gwelsom fod archwiliadau o ansawdd delweddau pelydr-X wedi cael eu cwblhau'n rheolaidd, a hynny yn rhan o'r gweithgarwch monitro sicrwydd ansawdd. Mae'r archwiliadau hyn yn nodi materion posibl mewn perthynas â thynnu lluniau pelydr-X, ac yn nodi unrhyw welliannau y dylid eu gwneud, lle bo angen.

Roedd gan y practis weithdrefn ar waith i hybu a diogelu lles plant ac oedolion a oedd yn agored i niwed neu'n wynebu risg. Gwelsom sampl o gofnodion hyfforddiant a oedd yn dangos bod staff wedi cwblhau hyfforddiant ar amddiffyn plant ac oedolion. Gwelsom nad oedd y polisi diogelu wedi cael ei adolygu er 2011. Argymhellwyd gennym y dylai'r polisi gael ei adolygu'n rheolaidd, er mwyn sicrhau ei fod yn cynnwys y manylion cyswllt perthnasol ar gyfer cyrff allanol petai unrhyw bryder ynghylch amddiffyn. Cytunodd y practis i fynd i'r afael â hynny.

Cadarnhaodd y staff y cawsom sgwrs â nhw eu bod yn teimlo eu bod yn gallu codi unrhyw bryderon a oedd ganddynt mewn cysylltiad â gwaith gydag uwch-aelodau o staff y practis, a'u bod yn hyderus y byddai'r pryderon hynny'n cael sylw.

Gofal effeithiol

Gwelsom fod tîm y practis wedi ymrwymo i ddarparu gofal diogel ac effeithiol i gleifion.

Gwelsom fod y practis yn cwblhau amrywiaeth o archwiliadau clinigol er mwyn monitro ansawdd a diogelwch y gofal a'r triniaethau a ddarperid i gleifion. Roedd y rhain yn cynnwys archwiliadau clinigol i nodi meysydd i'w gwella, ynghyd â gwiriadau ar gyfarpar i sicrhau ei fod yn gweithio'n effeithiol.

Aethom ati i ystyried sampl o gofnodion deintyddol 16 o gleifion er mwyn asesu ansawdd y cofnodi. Roedd cofnodion cleifion yn cael eu cadw'n electronig. Yn gyffredinol, roedd y nodiadau'n cynnwys manylion digonol. Fodd bynnag, nodwyd gennym rai meysydd cyffredin i'w gwella, sef:

- Nid oedd iechyd y geg cleifion yn cael ei gofnodi'n gyson, gan olygu nad oedd modd nodi unrhyw newidiadau neu welliannau yn hawdd
- Nid oedd y rheswm dros bresenoldeb cleifion a/neu eu hachwyniad yn cael ei gofnodi'n gyson
- Nid oedd nodau'r driniaeth bob amser yn cael eu cofnodi, gan olygu nad oedd modd asesu canlyniadau cleifion yn hawdd
- Nid oedd hanes cymdeithasol cleifion yn cael ei gofnodi'n gyson, e.e. hunan-barch a hunanhyder, a allai gael ei ddefnyddio i fesur canlyniadau ar gyfer cleifion.

O ganlyniad i rai o'r materion a nodwyd, argymhellwyd gennym wrth berchennog a rheolwr y practis y gallent fod am ystyried cyflwyno archwiliad o gofnodion cleifion yn rhan o'u gweithgarwch gwella ansawdd. Cytunodd y practis i ystyried hynny.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r orthodeintyddion sy'n gweithio yn y practis wneud trefniadau addas i sicrhau bod cofnodion cleifion a gwblheir ganddynt yn cael eu cynnal yn unol â'r gofynion rheoliadol a'r safonau proffesiynol ar gyfer cadw cofnodion.

Hefyd, nid oedd y rheswm dros dynnu lluniau pelydr-X a chanfyddiadau'r orthodeintyddion yn sgil hynny bob amser wedi cael eu cofnodi fel sy'n ofynnol gan Reoliadau Ymbelydredd Ioneiddio (Datguddio Meddygol) 2000.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r orthodeintyddion sy'n gweithio yn y practis sicrhau eu bod yn cofnodi'r rheswm dros dynnu lluniau pelydr-X, ynghyd â'u canfyddiadau, fel sy'n ofynnol gan Reoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Roedd y practis yn eiddo i un orthodeintydd, ac yn cael ei reoli gan yr orthodeintydd hwnnw, a oedd yn cael ei gefnogi'n ddyddiol gan reolwr practis. Gwelsom fod amrywiaeth o bolisiau perthnasol ar waith, a oedd â'r nod o sicrhau diogelwch staff a chleifion.

Dywedodd staff wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda gan uwch-aelodau o staff y practis, yn ogystal â'r tîm ehangach.

Dywedasant wrthym hefyd eu bod yn cael cyfleoedd i fynd ar gyrsiau hyfforddi perthnasol.

Roedd rheolwr practis yn gyfrifol am reoli'r practis o ddydd i ddydd. Roedd y rheolwr yn gweithio'n agos gyda pherchennog y practis. Lle y nodwyd gennym feysydd i'w gwella, dangosodd rheolwr a pherchennog y practis barodrwydd ac ymrwymiad i fynd i'r afael â hynny'n ddi-oed.

Dangosodd sgysiau â staff a oedd yn gweithio ar ddiwrnod ein harolygiad eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda yn eu rolau gan uwch-aelodau o staff y practis, yn ogystal â thîm y practis. Gwelsom hefyd fod staff yn glir ac yn hyddysg iawn ynglŷn â'u gwahanol gyfrifoldebau. Dywedodd staff wrthym eu bod yn teimlo bod cyfathrebu da yn y practis. Gwelsom fod cyfarfodydd tîm yn cael eu cynnal yn rheolaidd yn y practis, a dywedodd staff wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn gallu trafod unrhyw faterion yn ystod y cyfarfodydd hynny.

Gwelsom fod amrywiaeth o bolisiau a gweithdrefnau ar waith, a oedd â'r nod o sicrhau diogelwch staff a chleifion. Roedd mwyafrif y polisïau a welsom heb eu llofnodi gan staff, ac nid oeddent yn cynnwys dyddiadau adolygu na rhif y fersiwn. Roedd hyn yn golygu nad oedd modd i ni weld a oedd yr holl staff wedi darllen a deall y polisïau a'r gweithdrefnau a oedd ar waith, nac ychwaith a oedd y fersiwn ddiweddaraf ar gael. Argymhellwyd gennym y dylai'r practis anodi'r holl bolisiau a gweithdrefnau â dyddiad adolygu, rhif y fersiwn a llofnodion staff. Cytunodd y practis i ystyried hynny.

Yr hyn y mae angen ei wella

Dylai'r practis sicrhau bod ganddo system ar waith i adolygu polisïau a gweithdrefnau, ac i ddangos bod y rhain wedi cael eu cyfathrebu'n briodol â staff.

Gwelsom dystysgrifau a oedd yn dangos bod staff wedi cwblhau hyfforddiant ar amrywiaeth o destunau a oedd yn berthnasol i'w rôl. Cadarnhaodd staff hefyd eu bod yn cael eu cefnogi a'u hannog gan y tîm rheoli i fanteisio ar gyfleoedd hyfforddi.

Gwelsom dystiolaeth bod staff wedi cael arfarniad o'u perfformiad yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Gwelsom fod yr orthodeintyddion a'r staff nyrsio wedi'u cofrestru gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol i ymarfer, a bod ganddynt yswiriant indemnio ar waith.

Roedd cofnodion ar gael a oedd yn dangos bod staff wedi cael eu himiwneiddio rhag Hepatitis B, er mwyn diogelu cleifion, yn ogystal â nhw eu hunain, rhag haint. Roedd cyngor a chymorth iechyd galwedigaethol ar gael gan y bwrdd iechyd.

Roedd yr orthodeintyddion a oedd yn gweithio yn y practis yn darparu gwasanaethau deintyddol preifat. Roedd eu tystysgrifau cofrestru gan AGIC wedi'u harddangos yn amlwg, fel sy'n ofynnol gan y rheoliadau ar gyfer deintyddiaeth breifat. Roedd angen diweddarau rhai tystysgrifau i gynnwys cyfeiriad cywir AGIC. Cytunodd yr orthodeintyddion i gysylltu ag AGIC i ofyn am dystysgrifau diwygiedig. Gwelsom dystysgrifau cyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer yr orthodeintyddion a oedd yn gweithio yn y practis. Roedd y rhain wedi cael eu cyhoeddi yn ystod y tair blynedd diwethaf, fel sy'n ofynnol gan y rheoliadau.

5. Y Camau Nesaf

Yn sgil yr arolygiad hwn, mae angen i'r practis deintyddol gwblhau cynllun gwella (Atodiad A) er mwyn mynd i'r afael â chanfyddiadau allweddol yr arolygiad.

Dylai'r cynllun gwella ddatgan yn glir pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn Cathedral Orthodontics yn cael sylw, gan gynnwys amserlenni.

Mae angen i'r cam(au) a gymerir gan y practis mewn ymateb i'r problemau a nodwyd yn y cynllun gwella fod yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru. Yn gyffredinol, dylai'r cynllun fod yn ddigon manwl i roi sicrwydd digonol i AGIC ynghylch y materion a drafodir ynddo.


Pan fydd camau yng nghynllun gwella'r practis yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, dylai'r practis roi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw.

Caiff y cynllun gwella, unwaith y cytunir arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC, a'i werthuso yn rhan o'r broses arolygu deintyddol barhaus.

6. Methodoleg

Mae'r Safonau Iechyd a Gofal newydd (gweler Ffigur 1) wrth wraidd dull AGIC o gynnal arolygiadau yn y GIG yng Nghymru. Bwriedir i'r saith thema gydweithio â'i gilydd. Gyda'i gilydd, maent yn disgrifio sut y mae gwasanaeth yn darparu gofal o ansawdd uchel, diogel a dibynadwy sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae'r safonau'n allweddol i'r dyfarniadau yr ydym yn eu gwneud am ansawdd, diogelwch ac effeithiolrwydd gwasanaethau a ddarperir i gleifion.

Ffigur 1: Y Safonau Iechyd a Gofal



Bydd unrhyw ddeintydd sy'n gweithio yn y practis, sydd wedi'i gofrestru gydag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat, hefyd yn ddarostyngedig i ddarpariaethau Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008⁵ a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011.⁶ Lle y bo'n briodol, rydym yn ystyried sut y mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999, Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio

⁵ <http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2008/1976/contents/made>

⁶ <http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2011/2686/contents/made>

Meddygol) 2000, ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill, fel Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol.

Adolygwyd gennym ddogfennau a gwybodaeth o nifer o ffynonellau yn ystod yr arolygiad, gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC
- Cyfweiliadau â staff, gan gynnwys deintyddion a staff gweinyddol
- Sgyrsiau â staff nyrsio
- Archwilio sampl o gofnodion deintyddol cleifion
- Archwilio polisïau a gweithdrefnau'r practis
- Archwilio cyfarpar a'r safle
- Gwybodaeth yn nhaflen wybodaeth y practis ac ar ei wefan (lle y bo'n berthnasol)
- Holiaduron cleifion AGIC.

Rydym yn cynnig trosolwg o'n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y practis deintyddol ar ddiwedd pob arolygiad, er mwyn sicrhau eu bod yn cael adborth priodol.

Tynnir sylw'r practis deintyddol a'r bwrdd iechyd at unrhyw bryderon brys sy'n codi o arolygiadau deintyddol, a hynny drwy lythyr gweithredu ar unwaith. Bydd unrhyw ganfyddiadau o'r fath yn cael eu nodi, ynghyd ag unrhyw argymhellion eraill a wneir, yn Atodiad A i'r adroddiad arolygu.

Mae arolygiadau deintyddol yn cynnig cipolwg ar gymhwysiad safonau yn y practis yr ymwelir ag ef ar ddiwrnod yr arolygiad.

Cathedral Orthodontics: Cynllun Gwella

Practis: Cathedral Orthodontics

Dyddiad yr Arolygiad: 5 Rhagfyr 2016

Rhif y dudalen	Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu'r practis	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ansawdd Profiad y Claf					
Tudalen 7	<p>Rhaid i weithdrefn gwyno'r practis gynnwys gwybodaeth ar gyfer cleifion preifat ynglŷn â sut i ddwyn cwyn yn erbyn y practis.</p> <p>Rhaid i'r weithdrefn gwyno ar gyfer cleifion preifat gynnwys y manylion cyswllt cywir ar gyfer Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru.</p>	<p>Safonau Iechyd a Gofal Ebrill 2015</p> <p>Safon 6.3</p> <p>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 (fel y'u diwygiwyd)</p> <p>Rheoliad 15</p>	<p>Mae gweithdrefn gwyno ar gyfer cleifion preifat bellach wedi cael ei chynhyrchu. Mae'r daflen i gleifion a'r weithdrefn yn cynnwys manylion cyswllt AGIC. Mae posteri ar gyfer yr ystafell aros wedi'u cynhyrchu.</p>	P Naish	Cwblhawyd

Rhif y dudalen	Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu'r practis	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol					
Tudalen 9	<p>Mae'n rhaid i berchennog y practis sicrhau bod y llawr yn cael ei selio rhwng y cypyrddau a'r llawr presennol (neu wneud trefniadau priodol eraill) i atal dŵr, llwch a sbwriel rhag casglu yn y rhan o'r llawr heb ei selio mewn un o'r ystafelloedd dadheintio.</p> <p><i>Memorandwm Technegol lechyd Cymru (WHTM) 01-05</i></p>	<p>Safonau lechyd a Gofal, Ebrill 2015, Safon 2.9</p> <p>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 (fel y'u diwygiwyd)</p> <p>Rheoliad 14</p>	Mae'r seliwr coll wedi cael ei osod gan berchennog y practis.	P Naish	Cwblhawyd
Tudalen 9	<p>Rhaid i'r practis wneud trefniadau addas i sicrhau bod y staff yn cydymffurfio â'r canllawiau a amlinellir yn nogfen ganllaw Memorandwm Technegol lechyd Cymru 01-05 (Diwygiad 1) o ran:</p> <ul style="list-style-type: none"> • cynnal profion a gweithdrefnau ar beiriannau awtoclaf 	Safonau lechyd a Gofal, Ebrill 2015, Safon 2.4	Mae'r practis wedi cael gafael ar lyfrau cofnodion oddi wrth Isopharm ac maent bellach yn cael eu defnyddio. Mae sribedi lliw bellach yn cael eu defnyddio yn yr awtoclafau.	P Naish	Cwblhawyd

Rhif y dudalen	Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu'r practis	Swyddog cyfrifol	Amserlen
	<ul style="list-style-type: none"> cynnal llyfrau cofnodion o'r profion a'r gweithdrefnau ar beiriannau awtoclaf <p><i>Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05, Diwygiad 1 – Chwefror 2014, Adran 4</i></p>				
Tudalen 10	<p>Rhaid i'r practis wneud trefniadau addas i sicrhau bod:</p> <ul style="list-style-type: none"> pecyn llawn a ddefnyddir mewn achos brys ar gael yn y practis, a bod gwiriadau rheolaidd yn cael eu cynnal ar gyfer yr offer a ddefnyddir mewn achos brys. <p>Mae hyn yn unol â'r safonau sicrhau ansawdd a nodir gan y Cyngor Dadebru (DU).</p> <p><i>Y Cyngor Dadebru (DU), Safonau Ansawdd ar gyfer arfer a hyfforddiant adfywio cardio-</i></p>	<p>Safonau Iechyd a Gofal, Ebrill 2015, Safon 2.9</p> <p>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 (fel y'u diwygiwyd)</p> <p>Rheoliad 14</p>	<p>Mae'r pecyn ar gyfer achosion brys wedi cael ei wirio ac mae'n gynhwysfawr. Mae gweithdrefn bellach ar waith ar gyfer gwiriadau wythnosol o'r cyfarpar brys.</p>	P Naish	Cwblhawyd

Rhif y dudalen	Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu'r practis	Swyddog cyfrifol	Amserlen
	<i>pwlmonaidd, Gofal Sylfaenol</i>				
Tudalen 12	<p>Rhaid i'r orthodeintyddion sy'n gweithio yn y practis wneud trefniadau addas i sicrhau bod cofnodion cleifion sy'n cael eu cwblhau ganddynt yn cael eu cynnal yn unol â gofynion rheoliadol a'r safonau proffesiynol ar gyfer cadw cofnodion.</p> <p><i>Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol, Safonau 3 a 4</i></p>	<p>Safonau Iechyd a Gofal, Ebrill 2015, Safon 3.5</p> <p>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 (fel y'u diwygiwyd)</p> <p>Rheoliad 14</p>	<p>Mae cyfarfod ar gyfer yr orthodeintyddion wedi cael ei drefnu i drafod arferion cadw cofnodion cleifion, gan gynnwys cyfiawnhad dros gymryd sganiau pelydr-X. Cofnodion y practis i gael eu harchwilio i asesu gwelliannau.</p>	P Naish	Awst 2017
Tudalen 12	<p>Rhaid i'r orthodeintyddion sy'n gweithio yn y practis sicrhau eu bod yn cofnodi'r cyfiawnhad dros gymryd sganiau pelydr-X a'u canfyddiadau yn unol â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000.</p> <p><i>Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm</i></p>	<p>Safonau Iechyd a Gofal, Ebrill 2015, Safon 3.5</p> <p>Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000</p>		P Naish	Awst 2017

Rhif y dudalen	Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu'r practis	Swyddog cyfrifol	Amserlen
	<i>Deintyddol, Safon 4.1</i>				
Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth					
Tudalen 13	<p>Dylai'r practis sicrhau bod ganddo system ar waith i adolygu polisïau a gweithdrefnau, a dangos bod y staff wedi cael eu hysbysu am y rhain mewn modd priodol.</p> <p><i>Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol, Safon 6</i></p>	<p>Safonau Iechyd a Gofal, Ebrill 2015</p> <p>Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd</p>	<p>Mae taenlen wrthi'n cael ei chynhyrchu i nodi pryd mae angen adolygu polisïau. Pan gânt eu hadnewyddu, rhoddir rhif fersiwn i bob polisi a chynhyrchir dalen i'w llofnodi gan staff ar gyfer polisïau nad oes ganddynt un yn barod. Mae'r holl bolisïau'n cael eu cadw yn yr ystafell staff felly maent ar gael yn hawdd i'r staff.</p>	P Naish	Rhagfyr 2017

Cynrychiolydd y Practis:

Enw (llythrennau bras): Philip Naish.....

Teitl: Perchennog y Practis.....

Dyddiad: 20 Ionawr 2017.....